# Y Beibl mewn blwyddyn

## Adnodd beibl.net newydd i deuluoedd




## Beth am fynd ar daith drwy'r Beibl eleni fel teulu?

**Dros 52 wythnos cewch gyfle i gael trosolwg ar brif storïau a themâu'r Beibl. Gellir defnyddio unrhyw Feibl, ond awgrymwn destun beibl.net, gan ddefnyddio'r fersiwn lliw '365 o storïau o'r Beibl' os yn bosibl.**

## Hen Destament

☐ **Wythnos 1**
Duw yn creu'r byd
**Adda ac Efa**
*Genesis 1-2:24*
Beibl 365: tudalen 7-9

☐ **Wythnos 2**
Y Neidr
**Allan o Eden**
*Genesis 3*
Beibl 365: tudalen 10

☐ **Wythnos 3**
Hanes Noa
**Adeiladu cwch**
*Genesis 6:9-9:17*
Beibl 365: tudalen 14-17

☐ **Wythnos 4**
Hanes Abraham
**Addewid Duw**
*Genesis 15*
Beibl 365: tudalen 21

☐ **Wythnos 5**
Hanes Sara
**Geni mab**
*Genesis 18: 1-15, 21: 1-6*
Beibl 365: tudalen 22 a 27

☐ **Wythnos 6**
Hanes Jacob
**Derbyn bendith**
*Genesis 27: 32-33*
Beibl 365: tudalen 34-35

☐ **Wythnos 7**
Hanes Joseff
**Yn yr Aifft**
*Genesis 37: 39-42; 44-45*
Beibl 365: tudalen 48-50

☐ **Wythnos 8**
Hanes Miriam
**Geni Moses**
*Exodus 2: 1-10*
Beibl 365: tudalen 76-77

☐ **Wythnos 9**
Hanes Moses
**Duw yn achub ei bobl**
*Exodus 12: 1-41; 14: 5-31*
Beibl 365: tudalen 89-92

☐ **Wythnos 10**
Moses ar Sinai
**Derbyn y Deg Gorchymyn**
*Exodus 20: 1-21*
Beibl 365: tudalen 96-97

☐ **Wythnos 11**
Hanes Aaron
**Tarw aur**
*Exodus 32: 1-29*
Beibl 365: tudalen 100-101

☐ **Wythnos 12**
Hanes Caleb
**Ysbïwyr**
*Numeri 13*
Beibl 365: tudalen 108-109

☐ **Wythnos 13**
Hanes Moses
**Gwlad yr addewid**
*Deuteronomuim 8: 1-18*
Beibl 365: tudalen 110

☐ **Wythnos 14**
Hanes Rahab
**Helpu ysbiwyr**
*Josua 2*
Beibl 365: tudalen 114

☐ **Wythnos 15**
Hanes Josua
**Waliau yn syrthio**
*Josua 6*
Beibl 365: tudalen 122-123

☐ **Wythnos 16**
Hanes Debora
**Barac yn arwain**
*Barnwyr 4*
Beibl 365: tudalen 137-138

☐ **Wythnos 17**
Hanes Gideon
**Dewis byddin**
*Barnwyr 6-7*
Beibl 365: tudalen 139-147

☐ **Wythnos 18**
Hanes Ruth a Naomi
**Ffyddlondeb ffrind**
*Ruth 1-2*
Beibl 365: tudalen 164-167

☐ **Wythnos 19**
Hanes Hanna
**Gofyn am blentyn**
*1 Samuel 1: 9-28*
Beibl 365: tudalen 170-172

☐ **Wythnos 20**
Hanes Samuel
**Galw Dafydd**
*1 Samuel 16: 1-13*
Beibl 365: tudalen 186-187

☐ **Wythnos 21**
Hanes Dafydd
**Ymladd gyda chawr**
*1 Samuel 17*
Beibl 365: tudalen 189-191

☐ **Wythnos 22**
Hanes Abigail
**Ffrae Dafydd a Nabal**
*1 Samuel 25: 2-38*
Beibl 365: tudalen 202-203

☐ **Wythnos 23**
Hanes Solomon
**Doethineb mawr**
*1 Brenhinoedd 3*
Beibl 365: tudalen 211-212

☐ **Wythnos 24**
Hanes Elias
**Brwydr gyda Baal**
*1 Brenhinoedd 18: 1-40*
Beibl 365: tudalen 218-219

☐ **Wythnos 25**
Hanes Eliseus
**Y jar olew**
*2 Brenhinoedd 4: 1-7*
Beibl 365: tudalen 223

☐ **Wythnos 26**
Hanes Jona
**Y pysgodyn mawr**
*Jona 1-2*
Beibl 365: tudalen 224-226

☐ **Wythnos 27**
Hanes Sedeceia
**Dinistr mawr**
*2 Cronicl 36: 11-21*
Beibl 365: tudalen 231

☐ **Wythnos 28**
Tri dyn dewr
**Y ffwrnais dân**
*Daniel 3*
Beibl 365: tudalen 236-237

☐ **Wythnos 29**
Hanes Daniel
**Yn ffau'r llewod**
*Daniel 6*
Beibl 365: tudalen 240-242

## Testament Newydd

☐ **Wythnos 30**
Hanes Mair
**Ymweliad gan angel**
*Luc 1: 26-38*
Beibl 365: tudalen 255

☐ **Wythnos 31**
Hanes Joseff
**Ymweliad gan angel**
*Mathew 1: 18-24*
Beibl 365: tudalen 256

☐ **Wythnos 32**
Geni Iesu
**Ymweliad gan fugeiliaid**
*Luc 2*
Beibl 365: tudalen 258

☐ **Wythnos 33**
Geni Iesu
**Ymweliad gan seryddion**
*Mathew 2*
Beibl 365: tudalen 260-261

☐ **Wythnos 34**
Hanes Ioan Fedyddiwr
**Paratoi'r ffordd**
*Ioan 1: 19-34*
Beibl 365: tudalen 264-265

☐ **Wythnos 35**
Bedyddio Iesu
**Ioan yn bedyddio**
*Mathew 3: 1-17*
Beibl 365: tudalen 266

☐ **Wythnos 36**
Dewis disgyblion
**Galw 12 i ddilyn**
*Ioan 1: 35-45, Luc 5: 1-11*
Beibl 365: tudalen 268-269

☐ **Wythnos 37**
Troi dŵr yn win
**Y wyrth gyntaf**
*Ioan 2: 1-11*
Beibl 365: tudalen 271

☐ **Wythnos 38**
Iesu a Nicodemus
**Yr angen i gredu**
*Ioan 3: 1-21*
Beibl 365: tudalen 272

☐ **Wythnos 39**
Mair a Martha
**Un peth sy'n bwysig**
*Luc 10: 38-42*
Beibl 365: tudalen 284

☐ **Wythnos 40**
Iesu'n dysgu
**Ar lan y llyn**
*Marc 4, Mathew 13*
Beibl 365: tudalen 286-287

☐ **Wythnos 41**
Y bugail da
**Y ddafad goll**
*Luc 15: 1-10; Ioan 10: 11-18*
Beibl 365: tudalen 291-292

☐ **Wythnos 42**
Dau fab
**Y tad cariadus**
*Luc 15: 11-32*
Beibl 365: tudalen 293-295

☐ **Wythnos 43**
Pobl angen bwyd
**Porthi'r Pum Mil**
*Marc 6: 34-44*
Beibl 365: tudalen 341-342

☐ **Wythnos 44**
Yr orymdaith fawr
**Cychwyn am Jerwsalem**
*Luc 19: 28-38*
Beibl 365: tudalen 358-359

☐ **Wythnos 45**
Iesu'n marw
**Croeshoelio Iesu**
*Luc 23*
Beibl 365: tudalen 387-393

☐ **Wythnos 46**
Mae Iesu'n fyw
**Y bedd gwag**
*Mathew 28*
Beibl 365: tudalen 396-398

☐ **Wythnos 47**
Atgyfodiad Iesu
**Dychwelyd at ei dad**
*Actau 1: 3-11*
Beibl 365: tudalen 406-407

☐ **Wythnos 48**
Y Pentecost
**Hanes yr Ysbryd Glân**
*Actau 2: 1-13*
Beibl 365: tudalen 408-409

☐ **Wythnos 49**
Hanes Saul
**Golau llachar**
*Actau 8*
Beibl 365: tudalen 418

☐ **Wythnos 50**
Hanes Paul
**Pregethu ac iachau**
*Actau 9*
Beibl 365: tudalen 419-421

☐ **Wythnos 51**
Hanes Pedr
**Annerch y bobl**
*Actau 10*
Beibl 365: tudalen 422-423

☐ **Wythnos 52**
Paul a Silas yn y carchar
**Adda ac Efa**
*Actau 16*
Beibl 365: tudalen 431-432

**Beth am dreulio blwyddyn yn cymryd trosolwg ar y Beibl. Mae modd cychwyn ar y cynllun ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, gan dreulio 52 wythnos i ddarllen yr hanesion.**

Argraffwch y daflen hon ar daflen A3 (neu argraffu 2 dudalen ar A4 a'i gludio at ei gilydd.

Beth am ei osod mewn man cyfleus yn eich cartref, lle gall pawb ei weld - ar hysbysfwrdd yn y gegin efallai?

Os oes copi o beibl.net mewn 365 o storïau gyda chi, cadwch hwnnw yn y man cyhoeddus hynny hefyd. Mae modd prynu copi o'ch siop Gymraeg lleol neu o gwales.com

Gellir defnyddio unrhyw Feibl sydd gennych, ond awgrymir testun beibl.net fel fersiwn hawdd i'w ddarllen. Mae modd mynd i wefan beibl.net hefyd a darllen yr hanes yno, neu lawr lwytho Ap Beibl i'ch dyfais ffôn neu lechen. Cymrwch amser yn ystod yr wythnos fel unigolion i ddarllen yr hanes, gan ganiatáu ddigon o amser i bawb wneud hynny yn ystod yr wythnos.

Yna, os yn bosib, dylid trefnu amser rheolaidd yn wythnosol i ymgynnull o gwmpas y bwrdd i gyd-ddarllen, gan roi cyfle i drafod a holi. Dylid caniatau tua 20 munud yn wythnosol ar gyfer gwneud hyn. Awgrymir cytuno ar amser penodol i wneud hyn bob wythnos, fel bore neu nos Sul, er mwyn hwyluso'r drefn.

Wedi darllen yr hanes, amgrymir cyd-drafod y pwyntiau canlynol yn wythnosol:

1. **Pa agwedd o'r stori ddaru eich cyffroi, ac sy'n fwya rhyfeddol?**
2. **Beth gredwch chi mae'r darn yma yn ei ddweud wrthym am natur Duw?**
3. **Beth ddysgoch chi am y bobl oedd yn rhan o'r hanes arbennig yma?**
4. **Be gredwch chi mae'r hanes yma yn ei ddweud wrthym ni heddiw?**
5. **Beth fedrwn ni wneud mewn ymateb i ddarllen y stori yma?**

Treuliwch amser byr mewn gweddi cyn i chi ddod a'r cyfnod o gwmpas y bwrdd i ben.